# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaethau Gofal Cartref Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Angel Street**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 4WB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwasanaethau Gofal Cartref Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Hydref 2020 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yn darparu cymorth i bobl dros 18 oed yn eu cartrefi eu hunain. Rhoddir cymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain, p'un a yw hynny fel unigolyn, mewn lleoliad byw â chymorth neu gyfleuster Gofal Ychwanegol.

Mae'r bobl sy'n cael gofal gan y Cyngor yn cael gofal gan staff sy'n fodlon yn eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ar y cyfan, ond mae angen gwella'r trefniadau o ran cynnal hyfforddiant priodol a sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu rolau'n effeithiol a'u bod yn cael y cyfle i godi unrhyw bryderon. Mae gan y bobl gynlluniau personol cywir a chyfredol sy'n nodi eu hanghenion gofal unigol. Mae'r bobl, a'u cynrychiolwyr, yn canmol y gydberthynas gadarnhaol sydd ganddynt â'r gweithwyr gofal, ac maent yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyflawni ei holl ddyletswyddau rheoleiddio. Mae angen sicrhau bod polisïau priodol ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd hyn yn faes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r darparwr wedi gwneud cynnydd digonol ac, felly, mae Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi cael ei gyhoeddi a bydd angen i'r darparwr roi sylw iddo ar unwaith.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gwneud dewisiadau am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r staff yn datblygu cynlluniau gyda'r unigolyn a'i gynrychiolydd, gan ddefnyddio adnoddau asesu cydnabyddedig. Mae'r bobl yn rhoi adborth wyneb yn wyneb, drwy brosesau monitro dros y ffôn, neu drwy arolygon boddhad, sy'n cyfrannu at y gwaith o sicrhau ansawdd y gwasanaeth. Caiff anghenion y bobl o ran iaith a chyfathrebu eu hystyried. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, a dywedwyd wrthym fod gwybodaeth fel y datganiad o ddiben a'r canllaw ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg a Saesneg, bod gwasanaethau cyfieithu hygyrch ar gael, a bod cyrsiau Cymraeg ar gael i'r staff.

Mae'r staff yn dogfennu anghenion y bobl a'r risgiau i'w diogelwch a'u llesiant, mewn asesiadau risg personol. Mae'r gwasanaeth yn ymateb i newidiadau o ran anghenion gofal a chaiff adolygiadau rheolaidd eu cynnal, ond gallai hyn fod yn gliriach yn y ffeiliau gofal yn rhai rhannau o'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio system monitro gofal electronig, sy'n galluogi'r staff gofal i gyfathrebu â staff y swyddfa a'r tîm rheoli. Mae'r system hefyd yn galluogi staff y swyddfa i rannu unrhyw newidiadau i rotas neu dasgau gofal â'r gweithwyr gofal yn brydlon.

Mae'r staff yn helpu i ddiogelu'r bobl rhag achosion posibl o niwed neu gamdriniaeth. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn ymwybodol o'r weithdrefn i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Er bod y polisïau Diogelu a Chwythu'r Chwiban yn gyfredol, mae angen adolygu a diweddaru hyfforddiant a pholisïau eraill.

Gall y bobl gael cymorth gyda'u meddyginiaeth os oes angen. Mae'r polisi meddyginiaeth wrthi'n cael ei adolygu. Mae gweithdrefnau ar waith yn y gwasanaeth tra bydd yr adolygiad hwn yn mynd rhagddo. Mae'r staff yn cael hyfforddiant a sesiynau monitro er mwyn sicrhau y gallant gyflawni'r dasg hon yn ddiogel ac yn briodol. Fodd bynnag, mae angen cynnal sesiynau goruchwylio mwy rheolaidd a darparu hyfforddiant cyfredol i bob aelod o'r staff ar draws y cynlluniau sy'n rhan o'r gwasanaeth, er mwyn lleihau problemau, er enghraifft, wrth nodi gwybodaeth ar y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR).

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl a'u teuluoedd gydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Dywedodd y bobl wrthym fod y cyfathrebu'n dda ar y cyfan. Gwelsom gopi o ganllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth a roddir i'r bobl a datganiad o ddiben, sy'n gyson â'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r rheolwyr yn sicrhau eu bod yn rhannu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y staff er mwyn darparu gofal da o ddydd i ddydd, ac maent yn darparu sianeli i fwydo unrhyw bryderon neu ymholiadau yn ôl i'r swyddfa. Mae'r staff yn defnyddio ap monitro gofal ar eu ffonau er mwyn cael gafael ar gynlluniau gofal, rotas a nodiadau dyddiol. Mae'r adborth gan y bobl a'u teuluoedd yn gadarnhaol. Wrth sôn am y staff, dywedodd un person, *'they're marvellous… really good… they lighten up my day'.* Dywedodd un perthynas wrthym hefyd, *'they're fantastic… get him laughing…they're a tonic for him'*

Mae'r cynlluniau gofal yn ystyried canlyniadau personol y bobl, yn ogystal â'r gofal a'r cymorth ymarferol sydd eu hangen arnynt. Gwelsom dystiolaeth bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ond gallai hyn fod yn gliriach mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y bobl, eu teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol eraill, fel gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol.

Mae mesurau ar waith ar gyfer helpu pobl gyda'u meddyginiaeth os bydd angen. Mae'r polisi meddyginiaeth wrthi'n cael ei adolygu, ond mae gweithdrefnau ar waith sy'n rhoi arweiniad i'r staff. Mae rhai o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar feddyginiaeth ac mae'r goruchwylwyr yn gwirio cymhwysedd y gweithwyr gofal i gefnogi'r bobl gyda'u meddyginiaeth drwy gynnal hapwiriadau ac asesiadau o gymhwysedd. Roedd rhai o'r siartiau MAR a welsom wedi'u cwblhau'n briodol ond mae angen sicrhau cysondeb mewn perthynas â hyn ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn anelu at amddiffyn y bobl rhag achosion posibl o niwed a chamdriniaeth. Mae rhai o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith i'w hysbysu am sut i roi gwybod am achos o gam-drin. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus y byddent yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt bryderon am rywun sy'n wynebu risg o niwed ac y gallent fynd at y rheolwyr i drafod y materion hyn.

Mae rhai mesurau rheoli heintiau ar waith. Mae rhai o'r staff wedi cael hyfforddiant yn y maes hwn ac mae canllawiau a gweithdrefnau ar waith, ond nid oes unrhyw bolisi cyfredol ffurfiol. Yn ystod ein hymweliad â'r swyddfa, gwelsom fod cyflenwadau da o gyfarpar diogelu personol (PPE) fel masgiau, menig, a hylif diheintio dwylo. Dywedodd y bobl sy'n cael gofal a chymorth wrthym fod y staff yn dal i ddefnyddio PPE pan fyddant yn eu cartrefi.

## Yr Amgylchedd

Gan mai gwasanaeth cymorth cartref yw hwn, nid ydym yn ystyried thema'r amgylchedd, ond roedd y swyddfa a'r safleoedd eraill yn ymddangos yn ddiogel ac yn 'addas at y diben' yn ystod ein hymweliadau safle.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r staff yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael amser i feithrin y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen arnynt cyn ymweld â phobl ar eu pen eu hunain. Mae proses sefydlu ar waith, sy'n cynnwys hyfforddiant a chyfleoedd i gysgodi aelodau eraill o'r staff. Caiff rhai o'r staff sesiynau goruchwylio rheolaidd sy'n cynnwys trafodaethau un i un â'u rheolwyr llinell am eu llesiant a'u datblygiad proffesiynol, yn ogystal â 'hapwiriadau' ac asesiadau o gymhwysedd. Caiff rhai o'r staff hyfforddiant, sy'n cynnwys cymysgedd o e-ddysgu ar-lein a rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, dengys cofnodion nad oes cysondeb o ran sesiynau goruchwylio rheolaidd a hyfforddiant cyfredol i bob aelod o'r staff ym mhob cynllun sy'n rhan o'r gwasanaeth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu rotas mewn da bryd drwy'r ap monitro gofal, a bod y rheolwyr yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hapus ac yn hyderus yn eu rolau. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym *'I absolutely love it'* ac wrth sôn am y tîm rheoli, dywedodd '*absolutely brilliant…always make time for you'.* Dywedodd un arall '*I personally love my job… pleasure coming here… lovely team*'. Mae prosesau recriwtio a fetio ar waith, ac maent yn brosesau cadarn. Mae gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Cynhelir proses recriwtio barhaus yn y gwasanaeth, gan ddefnyddio llwyfannau ar-lein, mynychu ffeiriau swyddi, hysbysebu'n fewnol ac yn allanol, a chynnig cymhellion i'r staff presennol a staff newydd fel cynlluniau gwobrwyo a chynlluniau car/beic yn lle cyflog.

Mae prosesau monitro ac archwilio ar waith er mwyn cynnal ansawdd y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â gwahanol rannau o'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn goruchwylio digwyddiadau o ddydd i ddydd gyda'r staff a'r bobl sy'n cael gofal yn dda. Caiff adroddiadau ar ansawdd y gofal ac adolygiadau sicrhau ansawdd eu cwblhau. Mae'r bobl sy'n cael cymorth yn rhoi adborth ar y gwasanaeth yn ystod ymweliadau, drwy alwadau monitro, a thrwy holiaduron arolygu boddhad. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu ffonio'r swyddfa unrhyw bryd os bydd ganddynt unrhyw broblemau neu ymholiadau. Cedwir cofnod o gwynion a digwyddiadau adroddadwy yn y gwasanaeth. Mae polisi Cwynion hefyd ar waith, ond mae angen ei ddiweddaru. Mae polisi hawdd ei ddarllen wedi'i ddatblygu'n ddiweddar a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Roedd nifer o'r polisïau eraill a welsom naill ai wedi dyddio neu ar goll. Mae'r staff yn dilyn rhai o'r canllawiau a'r protocolau. Roedd hyn yn faes i'w wella yn dilyn ein harolygiad diwethaf, ond ni wnaed cynnydd digonol ers hynny. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 12 | Rhaid i'r polisïau a'r gweithdrefnau gael eu hadolygu'n barhaus. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff pob aelod o'r staff ym mhob rhan o'r gwasanaeth sesiynau goruchwylio ac arfarnu a hyfforddiant rheolaidd. | Newydd |
| 60 | Rhaid i'r darparwr roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/01/2023